

BUSNES A RHEOLAETH

Amser – 1.5 awr

Atebwch DRI chwestiwn – UN o bob Rhan – mae pob cwestiwn yn gyfwerth eu marciau

**Dangoswch yn glir sut y daethoch i'ch atebion.
 Nodwch unrhyw ragdybiaethau a wnaethoch, a'u hesbonio.
 Cewch ddefnyddio cyfrifiannell nad oes modd ei rhaglennu.**

RHAN A – Atebwch UN cwestiwn o'r rhan hon

Cwestiwn 1

Mae Square CCC a Peg CCC yn gweithredu yn yr un farchnad. Mae'r wybodaeth gyfrifyddu ganlynol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/10/2017.

	Square CCC £m	Peg CCC £m
Manylion y datganiad incwm		
Gwerthiannau	276	552
Pryniadau	<u>216</u>	<u>430</u>
Elw net cyn treth a llog	60	122
Elw net ar ôl treth a llog	42	60

Mae pob gwerthiant ar delerau credyd a chyflenwir pob pryniad ar gredyd.

	Square CCC £m	Peg CCC £m
Manylion y Fantolen		
Asedau anghyfredol	240	480
Asedau cyfredol		
Stoc	60	144
Dyledwyr	48	<u>72</u>
Banc	<u>36</u>	144
Rhwymedigaethau cyfredol		
Credydwyr	64	80
Gorddrafft	-	<u>60</u>
Asedau cyfredol net	<u>80</u>	76
Asedau Net	<u>320</u>	<u>556</u>
Cyfalaf cyfranddaliadau (cyfranddaliadau £1) 200		400
Elw wrth gefn	<u>120</u>	<u>156</u>
	<u>320</u>	<u>556</u>

Mae angen:

- a) Cyfrifo'r cymarebau canlynol am 2017 ar gyfer Square CCC a Peg CCC er mwyn cymharu perfformiad y ddau fusnes. Am bob cymhareb rhowch ddiffiniad ohoni a dangoswch sut y daethoch i'ch ateb.

Proffidioldeb: Elw net ar werthiannau a'r Elw ar Gyfalaf a Ddefnyddiwyd.
Hylifedd: Cymhareb gyfredol a'r Gymhareb prawf asid
Effeithlonrwydd: Cyfnod casglu dyledwyr; y cyfnod talu Credydwyr a gymerwyd a'r cyfnod trosiant Stoc.

(20 marc)

- b) Cymharwch berfformiad Square CCC a Peg CCC.

(7 marc)

- c) Paratowch ddrafft cryno o'ch casgliadau a'ch argymhellion.

(7 marc)

(Cyfanswm 34 marc)

Cwestiwn 2

Mae datganiadau ariannol yn dangos gwir elw a gwerth y cwmni. Trafodwch y datganiad hwn.

(34 marc)

Cwestiwn 3

Os yw'r datganiad Llif Arian yn darparu cymaint o wybodaeth, pam traferthu â'r Datganiad Incwm?
Trafodwch.

(34 marc)

RHAN B – Atebwch UN cwestiwn o'r rhan hon

Cwestiwn 4

Trafodwch y cyfleoedd a'r bygythiadau i fusnesau a ddaw yn sgil poblogaeth sy'n heneiddio?

(33 marc)

Cwestiwn 5

Diffiniwch 'allanolion' gan esbonio sut y gallant olygu bod adnoddau yn cael eu dosrannu ym maes ffermio mewn modd nad yw'n ddelfrydol. A yw trethi tir yn ffordd dda o ddatrys y broblem hon o gam-ddosrannu adnoddau?

(33 marc)

Cwestiwn 6

Diffiniwch ddarbodion maint ac eglurwch pam fod yn rhaid i reolwyr fod yn ymwybodol o annarbodion maint mewnol ac allanol.

(33 marc)

RHAN C - Atebwch **UN** cwestiwn o'r rhan hon

Cwestiwn 7

Trafodwch sut y gall cwmni sicrhau bod ei swyddogaeth Adnoddau Dynol mor effeithiol â phosib.

(33 marc)

Cwestiwn 8

Esboniwch pam y gallai cyrchfan boblogaidd i dwristiaid ddymuno gosod cyfyngiad ar dwristiaeth. Beth fyddai goblygiadau cyfyngiad o'r fath?

(33 marc)

Cwestiwn 9

Disgrifiwch y rhan y mae'r cymysgedd marchnata yn ei chwarae ym mhenderfyniadau rheolwyr portffolio cynnyrch.

(33 marc)